



MIDWALES OPERA  
OPERA CANOLBARTH CYMRU



## **Croeso i'n Pecyn Gwybodaeth!**

Camwch i fyd cyfareddol Macbeth Verdi gyda'n pecyn addysg, pasbort i fyd lle mae drama Shakespeare yn cwrdd â disgleirdeb operatig, sy'n sicrhau profiad atyniadol sy'n teimlo'n agos-atoch.

Dewch i ddilyn troadau stori drasig Macbeth, wedi'i dyrchafu gan gyfansoddiadau cerddorol bythgofiadwy Verdi, a datod y themâu cyffredinol sydd wrth wraidd y ddrama eiconig hon.

Ymunwch â ni wrth i ni fynd ar daith trwy bŵer, moesoldeb ac uchelgais, i gyfeiliant alawon atgofus sy'n nodweddiadol o athrylith Verdi.



## Ein Cynhyrchiad:

Mae un o ddramâu mwyaf Shakespeare hefyd yn un o operâu mwyaf Verdi. Dewch i brofi hanes gwefreiddiol am bŵer, ystryw a chwyp echryslon wrth i Macbeth, cadfridog dewr, ildio i berswâd ei wraig, sy'n arwain at ymgyrch ddidrugaredd i ennill gorsedd yr Alban. Sgôr syfrdanol Verdi, gyda'i felodïau ysgubol a'i harmonïau cywrain, sy'n gyrru'r naratif seicolegol gwefreiddiol ac mae Act 4 yn cyflwyno tro modern gyda'r corws hiraethus o ffoaduriaid. Caiff yr opera ei chanu yn Saesneg, gyda chyfeiliant Ensemble Cymru, cast eang a chorysau cymunedol. Cyflwynna Opera Canolbarth Cymru ei gynhyrchiad cyntaf erioed o Macbeth Verdi fel uchafbwynt tymor Shakespeare.

Cerddoriaeth: Giuseppe Verdi  
Trefniant Cerddorfaol: Jonathan Lyness  
Libreto: Francesco Maria Piave  
Yn seiliedig ar Macbeth William Shakespeare  
Fersiwn Saesneg: Jeremy Sams  
Perfformir trwy drefniant gyda Josef Weinberger Limited

Arweinydd: Jonathan Lyness  
Cerddorfa: Ensemble Cymru  
Cyfarwyddwr/Cynllunydd: Richard Studer  
Cynllunydd Goleuo: Elanor Higgins

Macbeth: Jean-Kristof Bouton  
Yr Arglwyddes Macbeth: Mari Wyn Williams  
Macduff: Robyn Lyn Evans  
Banquo: Emyr Wyn Jones  
Boneddiges Breswyl: Rebecca Afonwy-Jones



## Cwrdd â'r Cymeriadau:

Mae gan bob cymeriad yn "Macbeth" rôl sy'n helpu i adrodd stori am uchelgais, cyfeillgarwch, brad, a chanlyniadau gwneud y dewisiadau anghywir.

**Macbeth:** Meddyliwch am Macbeth fel y prif gymeriad sy'n gwneud dewisiadau gwael. Mae'n rhyfelwr dewr ar y dechrau ond mae'n cael ei demtio gan bŵer. Mae ei stori yn dangos i ni beth all ddigwydd pan fydd rhywun yn gadael i uchelgais gymryd drosodd.

**Yr Arglwyddes Macbeth:** Hi ydy gwraig Macbeth a'r un sy'n ei wthio i wneud y pethau annoeth, fel dod yn frenin trwy wneud rhywbeth wirioneddol ddrwg. Mae ei stori yn ein dysgu am ganlyniadau gwthio rhywun i wneud rhywbeth drwg a theimlo'n euog wedyn.

**Macduff:** Dychmygwch Macduff fel yr arwr sy'n ceisio gwneud pethau'n iawn. Mae'n benderfynol o roi stop ar Macbeth ar ôl i bethau ofnadwy ddigwydd i'w deulu. Ef ydy'r dyn da sy'n ymladd yn erbyn y dyn drwg.

**Banquo:** Banquo yw ffrind Macbeth sy'n dechrau ei amau. Ef ydy'r cyfaill doeth sy'n sylweddoli bod rhywbeth ddim yn iawn ac yn talu'r pris. Mae ei gymeriad yn helpu i ddangos sut y gall rhywun gael ei fradychu gan ei ffrind.

**Boneddiges breswyl:** Dydy'r cymeriad yma ddim yn un canolog iawn, ond mae'n rhoi cipolwg i ni ar ddrama'r llys brenhinol. Mae'n gymeriad yn y cefndir, yn dangos i ni sut beth yw bywyd o gwmpas y prif gymeriadau.

**Malcolm:** Ef yw etifedd cyfreithlon yr orsedd ar ôl y Brenin Duncan. Mae Malcolm yn rhedeg i ffwrdd i achub ei hun ond yn dod yn ôl i hawlio'i safle. Mae ei stori'n ymwneud â dod yn ôl i wneud pethau'n iawn.

**Meddyg:** Mae'r Meddyg yn gofalu am yr Arglwyddes Macbeth pan mae hi'n dechrau ymddwyn yn rhyfedd. Ei gymeriad ydy'r arsylwr sy'n gweld pan fo rhywbeth o'i le ac yn ceisio helpu. Mae'n dangos ochr ddynol y stori i ni.

**Drychiolaethau:** Rhain ydy ffigurau arswydus yr ysbrydion sy'n rhoi cyngor camarweiniol i Macbeth. Maen nhw'n gwneud i Macbeth feddwl y gall wneud unrhyw beth yn y byd, ond maen nhw'n ei arwain i lawr y llwybr anghywir. Maen nhw'n ychwanegu elfen ddirgel ac arswydus i'r stori.

**Gwas / Llofrudd:** Mae'r cymeriadau yma'n gwneud y gwaith budr i Macbeth. Maen nhw'n dilyn ei orchmynion i niweidio pobl eraill, gan ddangos bod pŵer yn gallu llygru pobl a gwneud iddyn nhw wneud pethau drwg.



## Ynglŷn â Giuseppe Verdi:

Dylanwadwyd yn fawr ar Verdi gan weithiau Shakespeare drwy gydol ei yrfa, ac roedd "Macbeth" yn un o ddramâu'r dramodydd oedd yn ennyn ei ddiddordeb fwyaf.

Dylanwadwyd ar benderfyniad Verdi i ysgrifennu "Macbeth" gan ei edmygedd o weithiau Shakespeare, potensial dramatig y ddrama, yr her artistig a gyflwynodd, a'i awydd i gyfrannu at hunaniaeth ddiwylliannol ac artistig yr Eidal. Mae'r opera a grëwyd yn dangos athrylith Verdi wrth addasu stori drasig Shakespeare yn gampwaith cerddorol grymus ac emosiynol.

Roedd Verdi'n edmygu dramâu Shakespeare o ddifri ac yn eu gweld fel ffynhonnell gyfoethog o ddeunydd dramatig. Roedd y themâu, y cymeriadau a'r dyfnder emosiynol sy'n bresennol yng ngweithiau Shakespeare yn apelio at synhwyrâu Verdi fel cyfansoddwr oedd yn awyddus i greu operâu pwerus a llawn emosiwn.

Cynigiai "Macbeth" naratif oedd yn ysgogiad i Verdi, yn llawn themâu cysylltiedig ag uchelgais, pŵer, brad ac elfennau goruwchnaturiol. Rhoddodd y stori ddigon o gyfleoedd i Verdi archwilio cymeriadau cymhleth, emosiynau dwys, a sefyllfaoedd dramatig, oedd yn ganolog i'w arddull operatig.

Roedd addasu "Macbeth" Shakespeare yn rhoi her artistig i Verdi; trawsnewid plot cymhleth a chymeriadau amlochrog y ddrama yn waith operatig cydlynol oedd yn gofyn bod Verdi'n defnyddio ei sgiliau cyfansoddi a'i greadigrwydd, ac yn caniatáu iddo ehangu ei repertoire ac archwilio meysydd cerddorol newydd.

Gallwn edrych ar benderfyniad Verdi i addasu "Macbeth" hefyd yng nghyd-destun ehangach cenedlaetholdeb a hunaniaeth yr Eidal.

Trwy ddewis drama Shakespearaid, ceisiodd Verdi ddyrchafu opera Eidalaid i lefel drama Shakespeare a dangos medrusrwydd diwylliannol ac artistig yr Eidal. Daeth "Macbeth" yn arwydd o ymrwymiad Verdi i ddiwylliant yr Eidal a'i ddyhead i gyfrannu at ei threftadaeth artistig.



## Beth yw pwrpas y corws ym Macbeth Verdi?

Yn opera Giuseppe Verdi "Macbeth", mae'r sawl pwrpas i'r corws, ac mae'n adlewyrchu gwahanol swyddogaethau corws mewn opera yn gyffredinol:

**Sylwebaeth Naratif:** Mae'r corws yn aml yn rhoi sylwebaeth naratif ar yr hyn sy'n digwydd, gan gynnig cipolwg ar y ddrama sy'n datblygu. Gallant roi cyd-destun, crynhoi digwyddiadau, neu roi llais i deimladau cyfunol grŵp neu gymuned.

**Effaith Ddramatig:** Mae'r corws yn gwella'r effaith ddramatig trwy chwyddo emosiynau neu ymatebion y cymeriadau ar y llwyfan. Gall eu llais ar y cyd greu ymdeimlad o densiwn, disgwyliad, neu ragargoeli, gan bwysleisio adegau tyngedfennol yn y stori.

**Cymeriadaeth:** Trwy eu hymatebion ar y cyd a'u rhyngweithio â'r prif gymeriadau, mae'r corws yn helpu i ddatblygu cymeriad. Efallai eu bod yn adlewyrchu argraff y cyhoedd o'r prif gymeriadau, eu hofnau, eu gobeithion, neu eu barn foesol.

**Gwead Cerddorol:** O ran cyfansoddiad cerddorol, mae'r corws yn cyfrannu at wead a chyfoeth cyffredinol yr opera. Mae Verdi, sy'n adnabyddus am ei feistrolaeth ar ysgrifennu corws, yn eu defnyddio i greu darnau corawl pwerus, ysgubol sy'n cyferbynnu â'r caneuon unigol neu ganeuon ensemble.

**Cynrychiolaeth Symbolaidd:** Ar adegau, mae'r corws yn gynrychiolaeth symbolaidd o themâu neu syniadau ehangach yn yr opera. Yn "Macbeth," er enghraifft, gallai'r corws gynrychioli'r cydwybod, llais y bobl, neu ganlyniadau cymdeithasol gweithredoedd y prif gymeriadau.





### **Syniadau a chwestiynau i'w hystyried:**

Gall gwyllo Macbeth Verdi fod yn brofiad cyfoethog ac ymdrwythol i fyfyrwyr, gan eich annog i feddwl am wahanol agweddau ar yr opera. Dyma rai cwestiynau y gallech eu hystyried ar ôl gwyllo:

1. Sut mae portread Verdi o Macbeth a'r Arglwyddes Macbeth yn cymharu â chymeriadau gwreiddiol Shakespeare? Pa agweddau ar bersonoliaeth a'r elfennau sy'n ysgogi Macbeth sy'n cael eu pwysleisio gan gerddoriaeth Verdi?
2. Sut mae Verdi yn defnyddio cerddoriaeth i gyfleu cyflwr emosiynol a seicolegol y cymeriadau? A oes nodweddion neu themâu rheolaidd yn y gerddoriaeth sy'n cyfateb i ddigwyddiadau neu gymeriadau penodol?
3. Sut mae cynllun y set a'r gwisgoedd yn cyfrannu at awyrgylch a naws gyffredinol yr opera? A yw'r elfennau gweledol yn gwella neu'n newid eich argraff o'r cymeriadau a'u perthnasoedd?
4. Pa themâu o ddrama Shakespeare sy'n cael eu pwysleisio yn addasiad Verdi, a sut maen nhw'n cael eu cyfleu trwy gerddoriaeth a llwyfannu?
5. Sut mae Verdi yn defnyddio technegau lleisiol ac offeryniaeth i ysgogi emosiynau penodol yn y gynulleidfa? Pa adegau yn yr opera sy'n cael effaith emosiynol arbennig o gryf arnoch chi, a pham?
6. Os ydych chi'n gyfarwydd ag addasiadau eraill o Macbeth, sut mae dehongliad Verdi yn wahanol, a pha elfennau unigryw y mae'n eu cyflwyno i'r stori?